ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 3 Cyfrol 15 Gorffennaf 2018

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

RHEDEG I BEREA..?

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

5 Awst	Mr. Glyn Owen
19 Awst	Y Parch. R.O.Jones
2 Medi	Gweinidog
9 Medi	
16 Medi	Gweinidog
23 Medi	Yr Athro Gareth Lloyd Jones y bore; undebol Berea Newydd hwyr
30 Medi	Parch. John Owen
7 Hydref	Gweinidog
14 Hydref	Y Parch. Cledwyn Williams
21 Hydref	Diolchgarwch y Plant; Gweinidog
28 Hydref	

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

5 a 19 Awst	Eirian Howells
2 a 9 Medi	Alwyn Lloyd Ellis
16 a 23 Medi	John Wynn Jones
30 Medi	Robat Roberts
7 Hydref	Robat Roberts
14 a 21 Hydref	Gwyn Jones
28 Hydref	Arfon Evans

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

5 Awst	John Wynn Jones
19 Awst	Gwyn Jones
2 Medi	Gwyn Jones
9 a 16 Medi	Cynthia Owen
23 a 30 Medi	Elin Walker Jones
7 a 14 Hydref	Gwenno Pritchard
21 a 28 Hydref	Maldwyn Thomas

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

5 Awst	Sarah Buchan
12 Awst	Emaus (Undebol)
19 Awst	Enid Pritchard
26 Awst	Emaus (Undebol)
2 Medi	Liz Roberts
9 Medi	Caren Lewis
16 Medi	Lis Jones
23 Medi	Gwawr Jones
30 Medi	Helen Morris
7 Hydref	Delyth Williams
14 Hydref	
21 Hydref	Griff Jones
28 Hydref	
4 Tachwedd	Sara Tudor

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Mae amryw o bobl wedi holi yn ystod yr wythnosau diwethaf i ble yr ydw i'n bwriadu mynd ar fy ngwyliau? Mae yna gred o hyd bod gweinidogion yr efengyl ar eu gwyliau drwy gydol mis Awst, ac er na welais i erioed reol na phenderfyniad yn mynnu hynny mae'n syndod fel y mae arfer a thraddodiad yn parhau.

Eleni, os pery'r tywydd braf diweddar, go brin y bydd yn rhaid i neb ohonom adael Cymru. Ond mynd a wna'r mwyafrif mae'n siŵr. Rhai yn ôl i leoedd cyfarwydd y maent wedi ymweld â hwy lawer gwaith o'r blaen, a rhai i leoedd cyffrous o newydd. Mae cael siawns i anghofio am gyfrifoldebau bob dydd ac ymlacio yn bwysig, a hynny er mwyn dychwelyd, ac ailafael yn yr arfau. Gobeithio y cawn i gyd haf dedwydd, y bydd ein gofidiau yn rhai bychan a'n mwynhad yn fawr, ac os bydd amgylchiadau'n anodd a bywyd yn annifyr a'r byd yn boen gobeithio y cawn y nerth i ddal ati a chymorth teulu a chyfeillion i ymgynnal.

Ar y trydydd Sul o Fedi (16 Medi), bwriedir cynnal oedfa deulu arbennig i nodi ailgychwyn gweithgareddau'r eglwys wedi seibiant a chrwydro'r haf. Erbyn hynny bydd yr ysgolion wedi ailgychwyn a theuluoedd wedi dychwelyd o'u gwyliau, a'r bwriad yw rhoi cyfle i'r eglwys gyfan addoli fel un teulu gan annog rhai nad ydynt wedi gallu mynychu addoliad yn gyson yn ystod y misoedd diwethaf i wneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol.

Byddai'n braf hefyd cael cwmni'r bobl ifanc cyn iddynt fynd yn ôl i'r colegau neu symud oddi cartref i ddilyn gyrfa, ac os oes rhywun a garai ddod i'r capel o'r newydd dyma gyfle ardderchog i dorri'r garw.

Dymuniadau gorau, felly, i bawb yn ystod tymor y gwyliau. Anfonwn ein cofion fel erioed at y rhai sy'n wael a dymunwn nerth a chysur i bawb sydd mewn galar a hiraeth.

Boed gofal Duw drosom lle bynnag y crwydrwn a pha beth bynnag a ddaw i'n rhan.

Gyda chofion caredig atoch oll,
Elwyn

Clawr: Peredur ac Owain yn cychwyn ras 10k Gŵyl y Felinheli

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

Wel mae'n ddiwedd y tymor ac rydym wedi cael llawer o brofiadau a hwyl fel plant, ieuenctid a theuluoedd yr ofalaeth. Ga'i ddiolch am yr holl gefnogaeth rwyf wedi ei derbyn gyda diolch arbennig i athrawon yr ysgol Sul i gyd. Dyma fraslun o beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen dros y misoedd diwethaf.

Moliant y Plant

MOLIANT Y PLANT – Aeth criw o Berea draw i gapel Bethania, Y Felinheli, ar gyfer Moliant y Plant fore Sul 13 Mai. Cafwyd canu hwyliog dan arweiniad Mrs Susan Williams a gwobrwywyd y plant am ddysgu'r Llafur Cof.

CIC FELIN – Rydym wedi cael tymor llwyddiannus yn Nghlwb CIC Felin gyda nifer o weithgareddau diddorol wedi eu trefnu. Bu'r plant ar helfa natur ac yn chwarae gêm rownderi. Bu rhai o'r aelodau hefyd ar drip bowlio deg ym Mharc Glasfryn a phawb wedi mwynhau.

ESTYN ALLAN – Rwyf fi fel gweithiwr Plant, Ieuenctid a

Chwith uchod: Taith natur CIC Felin. Dde uchod: Y gôl newydd

Ennillwyr y twrnament pêl-droed

Tîm buddugol cystadleuaeth y plant hŷn

Theuluoedd eisiau ymestyn allan at aelodau o'r gymuned leol sydd ar hyn o bryd ddim yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eglwys. Er mwyn cyflawni hyn hoffwn greu rhaglen allgymorth (*outreach*) lle byddwn yn ymweld â digwyddiadau'r gymuned leol, ffeiriau haf ysgolion lleol a hefyd digwyddiadau a chlybiau mewnol yr Eglwys. Rydym yn sylweddoli bod gweithgaredd hwyliog yn hollbwysig er mwyn creu cysylltiad dechreuol gyda phobl ifanc, a dyna pam yr ydym wedi buddsoddi mewn gôl blastig llawn gwynt er mwyn denu diddordeb a chreu perthynas â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Defnyddiwyd y gôl am y tro cyntaf yn Ffair Haf Ysgol y Garnedd. Roedd y plant yno wrth eu bodd gyda'r gôl a chafwyd llawer o hwyl yn trio saethu'r bêl at y gôl.

Bowlio Deg CIC Felin

CYSTADLAETHAU PÊL-DROED – Cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed CIC Bang yng Nghanolfan Brailsford nos Lun, 30 Ebrill. Y tîm buddugol y noson honno oedd Christopher, Morgan, Lewis, Llŷr a Gwion. Yna, ganol Gorffennaf, dyma ddychwelyd i'r Ganolfan pan gafwyd noson hwyliog iawn yn nhwrnament Cwpan CIC yn erbyn clwb CIC Capel Noddfa, Caernarfon. Roedd dau dîm sef Berea FC a Berealona yn chwarae'n wych, gyda thîm Berealona yn fuddugol. Hefyd cafodd y criw hŷn gemau yn erbyn ei gilydd a gwelir yma lun o'r tîm buddugol. *(Gweler llun o'r criw ar y dudalen gefn)*

GŴYL Y FELINHELI – Roedd hi'n wythnos brysur yng Ngŵyl y Felinheli ddiwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf, gyda nifer o

weithgareddau ar gyfer y teulu. Dyma rai lluniau i roi blas i chi. Diolch i bawb a wnaeth fy noddi i redeg yn Ras 10K y Felinheli i godi arian tuag at y gweithgareddau plant ac ieuenctid.

RAS YR IAITH – Ddechrau Gorffennaf fe wnes i redeg yng nghymal Bangor o Ras yr Iaith, sy'n ras a gynhelir bob dwy flynedd i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac i godi arian tuag at weithgareddau cymunedol sy'n ei hybu. Llwyddais i godi £70 – diolch i bawb wnaeth fy noddi unwaith eto ac i'r criw ddaeth draw i gefnogi.

FLIP OUT – Aeth criw Ysgol Sul Berea a Chlwb CIC Bach Berea ar drip i Flip Out, Caer, dydd Sul, 15 Gorffennaf. Roedd yn hyfryd gweld cymaint o blant yn bownsio, chwerthin a chwysu!

AGOR Y LLYFR – Sesiwn Agor y Llyfr yn Ysgol Glanadda. Dydw i ddim yn edrych yn cŵl iawn yn y wisg yma!

Uchod: Bu cyfle i hwylio yng Ngŵyl y Felinheli

Canol: Gŵyl Felin - Gwasanaeth Oedfa Gŵyl Felinheli gyda Dafydd Iwan.

Isod: Râs yr Iaith - Criw Berea

Uchod: Rhai o griw Agor y Llyfr

Chwith: Gwion Tegid o 'Rownd a Rownd' yn ymweld â'r stondin bêl–droed yn Ngharnifal Felin

Cofiwch:
MEDI a HYDREF
Pob nos Lun

CIC BANG BACH:
6.15–7.15
CIC BANG:
7.30–9.00

Trip i Flip Out

FY NHRI MIS YN INDIA

MARGED WILIAM

Ar y 1af o Fai eleni, dychwelais i Gymru wedi tri mis yn byw ac yn gwirfoddoli yn ardal Railmagra, Rajastan yn India. Ysgrifennais bwt i Ichthus cyn cychwyn am India 'nôl ym mis Chwefror. Mae dros ddeufis wedi pasio bellach, felly dyma gyfle i rannu ychydig o'm hanes a'm profiadau gyda darllenwyr Ichthus unwaith eto.

Wedi ychydig ddiwrnodau o hyfforddiant yn Delhi, teithiais gyda'r tîm ar y trên i Udaipur yn Rajastan. Yno cawsom hyfforddiant pellach gydag elusen leol sy'n gweithio gyda merched ac ieuenctid pentrefi gwledig Rajastan, sef Jatan Sansthan. Yno cawsom wybod mwy am y projectau y byddai angen i ni ymgymryd â nhw dros y tri mis nesaf.

Cam olaf y daith oedd teithio ar fws poeth a chwyslyd i Sansera, pentref bychan yng nghrombil diffaith, tywodlyd Rajastan. Dyma newid byd go iawn! Wedi derbyn croeso traddodiadol Indiaidd llawn blodau melyn ac oren, a chael ein bedyddio â'r bindi coch, llachar, cawsom ein hebrwng i gyfarfod ein teuluoedd am y tri mis nesaf. Roedd un gwirfoddolwr o Brydain ac un o India yn byw gyda phob teulu. Cefais fy mharu gyda Shreya o Delhi; merch annwyl, weithgar a diddorol dros ben. Profiad arbennig oedd cael cyd-fyw gyda rhywun sydd bellach yn un o'm ffrindiau agosaf, er ei bod hi'n byw ar ochr arall y byd.

Teulu Mwslemaidd wnaeth ein derbyn ni i'w cartref. Muskan, un o'n chwiorydd, oedd y cyntaf i'n croesawu. Roedd ei gwên yn belydr o heulwen i doddi mymryn ar ein hansicrwydd wrth fynd i'r tŷ am y tro cyntaf. Moment hyfryd oedd darganfod mai 'gwên' oedd ystyr ei henw. Ychwanegodd y cinio o domatos, chilis a chapatis, a baratowyd yn ffres gan Muskan, flas bywiog a chyffrous at fy atgofion cyntaf yn y pentref. Ond anodd oedd treulio'r newydd fod yr holl waith a ddechreuwyd gan y grŵp blaenorol o wirfoddolwyr wedi dod i ben fwy neu lai'n syth ar ôl iddynt adael.

Er hyn, dyma benderfynu gweld y methiant yma fel cyfle i wneud pethau'n wahanol. Cynaliadwyedd oedd canolbwynt popeth a wnaethom ni o fewn y projectau o hynny ymlaen. Penderfynais fod yn rhan o'r project grŵp merched. Er mwyn sicrhau fod y grŵp merched yn y pentref nid yn unig yn cynnig gofod saff a chynhyrchiol, ond hefyd ei fod yn mynd o nerth i nerth ar ôl i ni adael, treuliasom y bythefnos gyntaf yn dod i adnabod y merched. Cawsom ddegau o sgyrsiau difyr ac angerddol dros ddegau os nad cannoedd o gwpanau o chai, te

melys, blas sinsir yr ardal. Drwy hyn, daethom i adnabod rhai merched dylanwadol oedd yn angerddol ynghylch codi lleisiau merched yr ardal er mwyn datblygu pethau er eu budd nhw. Roedd hyn yn gyfle i annog y merched eu hunain i gynllunio ac arwain gweithgareddau'r cyfarfodydd grŵp merched. Drwy gydweithio gyda'r merched o'r cychwyn cyntaf cawsom gyfle i ddysgu cymaint gan ein gilydd a hefyd roi hyder i'n gilydd.

Uchafbwynt y project oedd gweld degau o ferched yn dod at ei gilydd i ysgrifennu ac arwyddo dogfen, ei darllen a'i chyflwyno i aelodau gwrywaidd, pwerus y cyngor oedd yn datgan yr hyn oedd angen ei newid yn Sansera. Dyma foment ymrymusgar, nid yn unig i ferched y pentref oedd wir yn herio'r drefn wrth ddod at ei gilydd a lleisio'u barn a'u hanghenion; roedd hefyd yn gwbwl ymrymusgar i mi a 'nghyd-wirfoddolwyr. Mae gweithio gyda merched cryf, gwydn, ysbrydoledig Sansera wedi fy ysgogi i fod yn fwy gweithgar yn fy nghymuned i adref ac i beidio bod ofn lleisio fy marn ar anghyfiawnderau dwys sydd yn digwydd yn ein byd heddiw.

MAE NA EIRA YM MHATAGONIA!

MEILYR JONES

Roedd pennawd diweddar Golwg 360 yn darllen 'Eira a gaeaf caled yn gorfodi capeli Patagonia i gau'. Mae'n anodd dod i delerau mai ni yng Nghymru sy'n cael yr 'heatwave' tra bod Patagonia yn Ne America yn cael eira mawr!

Gobeithio bydd yr eira wedi clirio erbyn diwedd mis Awst gan fy mod i yn cael y cyfle i deithio yna. Rydw i yn byw yn Goleufryn, yn aelod o'r capel ac wedi bod yn mynychu Cic bang yn wythnosol cyn symud i Gaerdydd i astudio Chwaraeon ym Mhrifysgol Met Caerdydd. Fel rhan o'r daith sy'n cael ei threfnu gan y Brifysgol, byddaf yn cael y cyfle i hyfforddi chwaraeon mewn ysgolion Cymraeg ym Mhatagonia, yn ogystal â helpu yn Eisteddfod y bobl ifanc, helpu oedolion i ddysgu Cymraeg a hefyd, helpu mewn gwasanaethau capeli Cymraeg yno. Mae'n gyfle arbennig i mi a bydd y profiad yn un hynod werthfawr gan mai athro ydw i eisiau bod yn y dyfodol.

Os hoffech chi gyfrannu fel fy mod yn gallu teithio i Patagonia, ewch i: https://www.justgiving.com/crowdfunding/meilyr - neu ebostiwch meilyrs@hotmail.co.uk am fwy o wybodaeth.

Diolch yn fawr = Muchos Gracias

CIPOLWG AR FLWYDDYN LLYWYDD CYMDEITHASFA'R GOGLEDD

Y PARCHEDIG ERIC JONES

Ceisiaf egluro'n syml batrwm ein trefn fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Yn cadw golwg ar glwstwr o eglwysi lleol, mae gennym yr Henaduriaeth, sef blaenoriaid a gweinidogion megis rhai Henaduriaeth Arfon sy'n cynnwys rhyw 25 o eglwysi. Yn y gogledd mae gennym saith Henaduriaeth, a gwaith y Gymdeithasfa, neu'r Sasiwn fel y gelwir hi hefyd, ydyw bwrw golwg drostynt oll. Estynnir y Sasiwn i ddwy dalaith arall hefyd, sef y De, h.y. De Cymru, a'r Dwyrain, sydd yn cynnwys eglwysi Saesneg eu hiaith ledled Cymru a thu hwnt. Gwahoddwyd fi i ymweld â hwy ddwywaith, a dwywaith hefyd y llywyddais Sasiwn y Gogledd. Daeth y tair talaith ynghyd yn y Gymanfa Gyffredinol a gyfarfu yng Nghaerdydd y llynedd. Trwy gydol y flwyddyn gwahoddwyd fi i gyfarch yr eglwysi Cymraeg trwy ysgrifennu chwe erthygl i'r *Goleuad.*

Ymwelais â saith Henaduriaeth y Gogledd, gan amlaf i ordeinio blaenoriaid newydd. Cafodd tua 19 eu hordeinio y llynedd, gyda 4 arall yn gohirio'u hordeiniad hyd eleni. Roedd llongyfarch blaenoriaid am oes o wasanaeth yn rhan bwysig o'm gwaith hefyd, ac yn eu plith blaenor ymroddedig o'm Gofalaeth gyntaf. Yn Henaduriaeth Maldwyn a gyfarfu yn y Drenwydd, gweinyddu'r Cymun oedd fy nghyfrifoldeb. Rhyfeddais fod rhai wedi teithio yno o leoedd pell fel Birmingham, Wolverhampton a Coventry. Do, fe welais gariad a theyrngarwch diflino tuag at Achos Crist yn ystod y flwyddyn, a hynny er gwaethaf amgylchiadau anodd a'r dirywiad bygythiol. A ydym yn sylweddoli mor freintiedig yr ydym yn ein Gofalaeth ni, a chymaint yw'r cyfleon a gawn i addoli a chenhadu trwy gyfrwng y Gymraeg?

Bu imi fynychu llu o bwyllgorau amrywiol, gan deithio i'r Bala, y Drenwydd, Trefeca ac Aberystwyth i'w cyrraedd. Yn ystafell 5 yn ein capel fe welwch ryw horwth o deledu newydd, sydd wedi ei gysylltu â Skype. Yr roedd cynnal pwyllgorau trwy'r dull hwn yn arbed oriau o amser teithio, ac yn arbed costau teithio i'r enwad. Trueni mai dim ond dwywaith y cefais ei ddefnyddio!

Ceisiais fugeilio 13 o weinidogion a'u teuluoedd dros y ffôn a thrwy ymweliadau a llythyrau, gan gynrychioli'r Sasiwn mewn dau angladd. Uchafbwynt y flwyddyn yn sicr oedd cael y fraint o ordeinio gweinidog newydd, rhan-amser, yn Sasiwn Lerpwl a pharatoi anerchiad ar 'Natur y weinidogaeth heddiw'. Bûm yn dysgu ysgrythur i Anna Jane Evans yn Ysgol Glan Clwyd, a braf ydyw gwybod bod y ferch arbennig hon bellach yn adnodd mor werthfawr o fewn ein Henaduriaeth. Yn yr un Sasiwn yr etholwyd Mrs Cynthia Owen yn Llywydd i'r dyfodol, a gwyddom y bydd y gwaith mewn dwylo diogel dros

ben. Llongyfarchiadau calonnog iddi.

Erbyn hyn cefais innau dasg newydd, sef paratoi y Ddarlith Davies ar gyfer y Gymanfa Gyffredinol yn 2020. *(Beth am ichi awgrymu teitlau ar ei chyfer? Yr unig amod a gefais yw y dylai ymwneud â 'chrefydd'! Cofiwch gysylltu).*

OEDFA SUL Y MAER

Daeth cynulleidfa deilwng iawn i oedfa Sul y Maer ar 15 Gorffennaf. Roedd yr oedfa dan arweiniad ein gweinidog. Un o blith ein haelodau ni'n hunain, y Cyng John Wynn Jones, yw'r Maer eleni, a hynny am y trydydd tro, a'r Dirprwy Faer yw'r Cyng John Wyn Williams. Cymerodd y ddau ran yn yr oedfa a braf oedd gweld cynrychiolaeth dda o'u cyd-aelodau yng Nghyngor Dinas Bangor yn bresennol gan gynnwys gosgordd drawiadol y Maer. Roedd cadeirydd Cyngor Gwynedd yn bresennol hefyd. Cymerodd yr Ysgol Sul ran ganolog yn yr oedfa gydag eitemau cerddorol a chyflwyniad bywiog, drwy gartŵn, darlleniadau a sgets, o hanes a oedd yn berthnasol iawn i'r achlysur, sef hanes un o arweinwyr mawr y Beibl, Moses. Cymerwyd rhan hefyd gan rai o athrawon a rhieni'r Ysgol Sul ynghyd ag Owain Davies, ein swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, a'r Tra Pharchedig Kathy Jones, Deon Bangor. Cafwyd lluniaeth yn y festri i ddilyn.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

UNDEB ATHROFA'R BALA
CRISTNOGAETH A GWYDDONIAETH

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Bob mis Mai cynhelir cyfafod o 'Undeb Athrofa'r Bala' yn Llandudno. Sefydlwyd y gynhadledd yn wreiddiol fel cymdeithas i gyn-fyfyrwyr diwinyddol Coleg y Bala ond erbyn hyn y mae'n denu amrywiaeth o bobl sydd â diddordeb mewn crefydd a diwinyddiaeth.

Y siaradwyr gwadd eleni oedd yr Athro Deri Thomas a'r Parchg Ddr Noel Davies. Trafod perthynas Cristnogaeth a gwyddoniaeth oedd eu tasg, a chafwyd ganddynt ddwy sgwrs wahanol iawn i'w gilydd.

Dywedodd Deri Thomas iddo osod fel dyfyniad ar gychwyn ei draethawd am ddoethuriaeth mewn biocemeg ym Mhrifysgol Caergrawnt eiriau olaf y Gyffes Fer o'n Ffydd: 'Credwn mai diben pennaf dyn yw gogoneddu Duw, a'i fwynhau byth ac yn dragywydd'. Bu'r ffydd Gristnogol yn ddylanwad mawr iawn arno yn ei ieuenctid, meddai, a gwerthfawroga o hyd y cyfle a rydd yr ysgol Sul i drafod ac ystyried ffydd a chred. Heb ddarganfod eto ffyrdd o estyn yr un cyfle i drafod crefydd i ieuenctid heddiw nid oedd yn rhagweld fawr o ddyfodol i Anghydffurfiaeth. Byrdwn sgwrs Deri Thomas oedd na ellir darganfod Duw drwy ymchwil gwyddonol. Yr ysgrythur a'r datguddiad sydd yng Nghrist yw defnydd crai Cristnogaeth, meddai, ac ni all gwyddoniaeth sy'n ymwneud yn unig â'r byd naturiol ddweud dim wrthym am y goruwchnaturiol. Er y byddwn yn rhyfeddu at y machlud, yn gwerthfawrogi harddwch y mynyddoedd, yn dotio at faban newydd-anedig ac yn cael ein cynhyrfu gan aruthredd y môr a'i donnau, gellir esbonio'r hyn a welwn a'n profiad ohono mewn termau cwbl naturiol. Dyna a wnaeth gwyddonwyr fel Richard Dawkins gan wadu'r angen am fodolaeth Duw.

Holi a yw yn bosibl sôn yn ystyrlon am Dduw yn wyneb darganfyddiadau gwyddonol y ganrif a hanner ddiwethaf a wnaeth Noel Davies, gan bwyso ar y gyfrol a roddodd ei theitl i'r gynhadledd, *Cristnogaeth a Gwyddoniaeth,* a luniwyd ganddo ef a'r Athro Hefin Jones, ac a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 2017.

Er ei fod yn cydnabod nad oes raid wrth y cysyniad o Dduw i esbonio'r bydysawd mynnodd mai Duw, o safbwynt y ffydd Gristnogol, 'yw'r egni a'r grym a'r dychymyg a'r bwriad, y rhyfeddod a'r cariad diderfynau a diamod oedd ar waith yn nechreuadau'r Glec Fawr'. A hyd yn oed heddiw, meddai, y mae rhyfeddod, cymhlethdod a gogoniant y bydysawd yn arwyddbyst tuag at Dduw, yr 'anfeidrol, annherfynol Fod a'i hanfod ynddo'i hun', sydd y tu hwnt i'r hyn y deuwn ar ei draws yn y byd.

Mynnodd Noel Davies nad yw darganfyddiadau gwyddoniaeth yn anghydnaws â ffydd, ac y gall ffydd gyfoethogi ein dirnadaeth o'r cosmos a dangos bod ystyr a diben i'r bydysawd. I gloi ei sgwrs dyfynnodd eiriau emyn W. T. Pennar Davies:

Glendid maith y cread, syndod ei ddieithrwch,
Gwyrth ein daear fechan, rhyfeddod bod a byw,
Diolch am gael profi yn y dwys ddirgelwch
Ras a gogoniant yr anhraethol Dduw.
(C.Ff. 123)

Siaradwyr a Swyddogion Undeb Athrofa'r Bala

MAWL GER Y PIER

Gyda'r haul yn tywynnu ac awel braf i'w theimlo ar lannau'r Fenai, ni allai'r tywydd fod wedi bod yn well ar gyfer Mawl Ger y Pier ar 8 Gorffennaf. Cytûn: Eglwysi Bangor Ynghyd oedd yn trefnu'r gwasanaeth fel arfer ac oherwydd fod gwaith atgyweirio'n cael ei wneud ar y pier roedd pawb wedi ymgynnull ar y llain glas cyfagos. Canu emynau a chaneuon o fawl i Dduw oedd craidd y gwasanaeth a chafwyd hefyd ambell ddarlleniad a chyflwyniad dramatig gan gynrychiolwyr y gwahanol eglwysi. Unwaith eto eleni roedd côr yr Ysgol Sul wedi cael gwahoddiad i'r achlysur, a chafodd eu cân, 'Cân Plant y Byd', dderbyniad gwresog iawn.

COFIO GWILYM H. JONES (1930-2018)

CATRIN H. WILLIAMS

Sut mae crynhoi fy ngwerthfawrogiad o un a fu, am dros ddeng mlynedd ar hugain, yn fawr ei ddylanwad arnaf fel darlithydd, tiwtor personol, cydweithiwr, pennaeth ac – yn bennaf oll – fel cyfaill a mentor?

Y tro cyntaf i mi gwrdd â Gwilym H. Jones oedd ar ddechrau'r wythdegau, a minnau'n ddisgybl dwy ar bymtheg oed wedi dod i Brifysgol Bangor am gyfweliad. Yr oedd yr amgylchiadau yn rhai digon rhyfedd: yr oeddwn eisoes wedi cael fy nerbyn i astudio'r Gyfraith yng Ngholeg y Brenin yn Llundain ond wedi penderfynu derbyn gwahoddiad i fynd ar ymweliad ar gyfer y pumed dewis (a'r dewis olaf) ar y ffurflen gais, sef BA Efrydiau Beiblaidd ym Mangor. Yr oedd Gwilym yn gwybod yn iawn sut oedd y gwynt yn chwythu. Ond sut oedd gwerthu tair blynedd o astudio Groeg a thestunau Hebraeg i rywun oedd eisoes wedi gosod ei bryd ar ddilyn gyrfa ym myd y gyfraith? Wel, mi lwyddodd Gwilym. Yn ei ddull dihafal, eglurodd yn fanwl beth oedd manteision dilyn cwrs gradd mewn ieithoedd hynafol ac mewn astudio datblygiad crefydd yn y canrifoedd cynnar. Ac erbyn diwedd y cyfweliad yr oeddwn wedi rhoi gorau i'r syniad o fynd i Lundain ac wedi penderfynu mai'r Coleg ar y Bryn oedd y lle i mi. O edrych yn ôl, ffactor hollbwysig oedd i mi sylweddoli fy mod yng nghwmni ysgolhaig ac academydd o fri oedd yn hael ei amser gyda'i fyfyrwyr, yn dangos gwir ddiddordeb ynddynt ac yn ofalus ohonynt. Dyma, yn sicr, oedd fy mhrofiad i a llu o rai eraill fu'n fyfyrwyr i Gwilym ym Mangor.

Llun trwy garedigrwydd Ysgol Athroniaeth a Chrefydd Prifysgol Bangor

Yr oedd ei ddarlithoedd bob amser yn afaelgar, yn llwyddo i ehangu gorwelion a deffro dychymyg wrth iddo gyflwyno diwylliannau hynafol Mesopotamia, Babilon a'r Aifft a'r cysylltiad agos rhyngddynt a hanes Israel. Yr oedd gosod yr Hen Destament yn ei gyd-destun ehangach – yn grefyddol ac yn ddiwylliannol – yn beth pwysig i Gwilym, yn rhywbeth a siapiodd hefyd y modd yr aeth ati baratoi cyfieithiadau o amrywiol lyfrau'r Hen Destament ar gyfer y Beibl Cymraeg Newydd.

Ynghanol ei holl brysurdeb fel ysgolhaig ac academydd, yr oedd Gwilym bob

amser yn fwy na pharod i ddysgu cyrsiau ychwanegol i'r rheiny ohonom oedd yn awyddus i ddyfnhau ein gwybodaeth o'r iaith Hebraeg. Pwy heddiw fyddai'n fodlon neilltuo tair awr bob wythnos – a hynny am dymor cyfan – i ddysgu testun Hebraeg Eseia a 2 Brenhinoedd i *un* myfyriwr. Dyna oedd fy mraint i yn fy mlwyddyn olaf ym Mangor. Euthum ymlaen wedyn i wneud gradd uwch yng Nghaergrawnt, a hynny am fod Gwilym ac eraill yn yr Adran wedi penderfynu bod angen meithrin cenhedlaeth newydd o arbenigwyr cyfrwng Cymraeg yn y maes. Yr oedd angen mynd i ffwrdd er mwyn cael dod yn ôl. A Gwilym, y Pennaeth Newydd, yn llywio'r cynllun olyniaeth.

Gweithleoedd dedwydd oedd prifysgolion yn yr wythdegau a'r nawdegau; yr oedd y pwyslais ar feithrin cymdeithas glos o fyfyrwyr, ar wneud cyfraniad i ysgolheictod a'r gymuned ehangach, a hynny heb y tablau mesur a'r targedau diddiwedd sydd bellach yn rhan annatod o'r byd addysg uwch. Serch hynny, yr oedd Gwilym ei hun wedi sylweddoli, ers iddo ddod yn Bennaeth, bod yn rhaid ehangu'r ddarpariaeth ac ymateb i'r newidiadau yn y cwricwlwm Addysg Grefyddol. Bu'n rhaid cyflwyno graddau newydd – Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol – ac mae'r diolch i Gwilym am fod yn ddigon mentrus i siarsio ei staff i addasu i'r amgylchiadau newydd hyn.

Ar ôl ymddeol penderfynodd Gwilym na fyddai'n ymwelydd cyson â'r Brifysgol. Byddai'n mynychu darlithoedd agored ac yn cefnogi digwyddiadau cyhoeddus, ond yr oedd yn credu'n gryf y dylai ei gydweithwyr dorri eu cwys eu hunain bellach. Ond nid oedd wedi mynd yn ddieithr. Yr oedd amryw ohonom yn ymwelwyr cyson â'i gartref ef a Mari yn Llansadwrn ac yna, yn ddiweddarach, ym Mhorthaethwy. Yr oeddwn bob amser yn edrych ymlaen at gael mynd draw i'w gweld yng Nghoed Gadlys: rhoi'r byd yn ei le wrth yr aga coch a chael mynd am dro pan oedd eu gardd yn fôr o gennin pedr. Bydd yr ymweliadau a'r sgyrsiau yn atgofion byw iawn wrth i ni ddathlu bywyd Gwilym H. a'r dylanwad aruthrol a fu ar bob un a dreuliodd amser yn ei gwmni.

CYMUN YN Y CARTREF

Os oes aelod sy'n methu dod i'r oedfaon a fyddai'n hoffi cael cymun gartref, a wnewch chi gysylltu â blaenor eich corlan neu'r gweinidog (elwynrichards@btinternet.com / 01286 676435) i drefnu hynny, os gwelwch yn dda.

PAM Y WEINIDOGAETH IACHAU?

ERIC A VAL JONES

Dyma'r pedwerydd tro i'r ddau ohonom fynychu Ysgol Haf y Weinidogaeth Iachau, ac eleni cawsom ddathlu ei phen-blwydd yn 65 mlwydd oed a hynny yng Nghefn Lea ger y Drenewydd. Mae'n dda cael dweud nad oes angen iddi godi pensiwn, nid yw yn clafychu oherwydd henaint ychwaith, erys yn heini ac egnïol. Dyna'n sicr oedd profiad dros ddeugain ohonom a ddaeth ynghyd rhwng 11 ac 14 Mehefin.

Cywasgu

Unwaith eto cywasgwyd cymaint rhwng 5 o'r gloch nos Lun a 3 o'r gloch brynhawn Iau. Roedd y Gwasnaeth Dechreuol yn fy ngofal i, a phregethwyd hefyd gan y Parchedigion Euros Jones Evans yn y Gwasanaeth Bendithio a Brian Huw Jones o flaen Bwrdd y Cymun. Traddodwyd dwy ddarlith gan Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad, y Parchg Meirion Morris, a'i thema oedd 'Adnabod Duw pob gras'. Gellir darllen y rhain ar wefan y Cyfundeb (www.pcw.org.uk). Arweiniwyd y ddau ddosbarth Beiblaidd goleuedig gan y Parchg Jenny Garrad.

Armrywiol gyfarfodydd

Bendithiol oedd y Cyfarfodydd Trafod a Gweddi, yn ogystal â'r Gwasanaethau boreol cyn brecwast! Mor agored a gonest oedd pawb yn y trafodaethau a'r gweddïau, yn wir gallwn eu cyffelybu i'r Seiadau Methodistaidd cynnar, y bu i Saunders Lewis eu galw yn 'glinigau yr enaid'. Un o gryfderau'r Ysgol Haf yw'r ymddiriedaeth sydd gan y mynychwyr yn ei gilydd, gan wybod na fydd profiadau na hyd yn oed gyfrinachau yn cael eu hailadrodd yn ddifeddwl. Yn y Gwasanaeth Bendithio,

daeth nifer ymlaen gan ofyn am weddïau drostynt hwy, eu hanwyliaid neu gyfeillion a oedd mewn angen arbennig. Yn amlwg, roedd y dagrau a welwyd yn dangos dyfnder yr angen am weddi a bendith. Aeth nifer ymlaen hefyd i gael eu heneinio ag olew (Iago 5:14). Onid oes yna anghenion fel hyn o fewn ein heglwysi'n lleol? Gwyliwn rhag i'n heglwysi fynd yn ddim amgenach na gorsafoedd pregethu.

Dathlu 65 mlynedd

Bu i wyth o'r mynychwyr adrodd eu profiadau amrywiol o Weinidogaeth Iachau Eglwys Bresbyteraidd Cymru ers ei dechreuad yn Aberystwyth yn 1953. Mynegwyd ein dyled i'w sylfaenydd sef y Parchg Glyn Williams o Dreuddyn ger yr Wyddgrug. Ei chwaer oedd Marian, sef mam y Dr Rhiannon Lloyd a'i chwaer Gwenda, dwy a chanddynt gysylltiadau clos ag eglwys y Graig gynt, ym Mhenrhosgarnedd.

Ond pam y weinidogaeth hon?

Gwae i ni heddiw anghofio anogaeth yr Arglwydd Iesu i'w ddisgyblion i '… bregethu Teyrnas Dduw ac iachau y cleifion' (Luc 9:2). Adfer a hyrwyddo'r pwyslais ar yr iachau a gafwyd yng ngweinidogaeth Crist a'i ddisgyblion a wna'r Weinidogaeth Iachau Gristnogol. Ond y mae angen erthyglau eraill i egluro mwy am honno. Cofiwch buasech yn cael croeso a bendith aruthrol yn un o'r canlynol:

ENCIL PENWYTHNOS – Coleg Trefeca: 1–4 Hydref

ENCIL DIWRNOD – Horeb, Dyffryn Ardudwy: 20 Hydref

YSGOL HAF 2019 – Cefn Lea: 17–20 Mehefin

CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL

LLIO EURGAIN

Profiad diddorol yw mynd i gasglu amlenni Cymorth Cristnogol. Rydw i yn bersonol wedi gweld llawer o ryfeddodau, pobl yn eu pyjamas neu weithiau *onsesies* am saith y nos. Hen wragedd gyda chŵn bach, maent yn neidio allan o nunlle a chyfarth yn uchel a'ch dychryn yn ofnadwy, y rhai lleiaf yw'r gwaethaf (y cŵn nid yr hen wragedd). Yr un peth yw'r sgwrs ym mhob tŷ, canu'r gloch ac esbonio Cymorth Cristnogol,

"Oh, I didn't get an envelope"

"I have a spare one if you need", medda Dad.

"I dont have any change" meddan nhw ac yna clep y drws ac ymlaen i'r tŷ nesaf.

Ond wrth gwrs mae rhai pobl glên yn cyfrannu yn hael bob blwyddyn a diolch iddynt.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD

GWENNO PRITCHARD

Mae Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar y dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth, a oedd yn disgyn eleni ar 2 Mawrth. Yr oedd y cyfarfod i fod i gael ei gynnal yn Eglwys St Pedr, Penrhosgarnedd, ond roedd y bore hwnnw'n un rhewllyd iawn a phenderfynodd Elma Taylor, oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth yn St Pedr, na fyddai'n beth doeth i'w gynnal. Roedd Eirian, ein cydlynydd ni yma ym Merea Newydd, yn dal yn awyddus i gynnal y gwasanaeth pan ddeuai cyfle, felly fe'i cynhaliwyd nos Sul 20 Mai, gyda merched o Eglwys Emaus yn ymuno â ni.

Yr oedd y gwasanaeth eleni wedi ei baratoi gan ferched Swrinam, gwlad ar arfordir gogleddol De America a fu dros y blynyddoedd dan reolaeth sawl cenedl yn eu tro, a'r thema oedd 'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd'. Mae Swrinam yn wlad hardd iawn. Mae ganddi goedwigoedd a mynyddoedd gwych, ac afonydd mawr, gyda dyfroedd gwyn byrlymus, hynod drawiadol. Dyma wlad sy'n gyforiog o flodau ac anifeiliaid, ac sy'n cynhyrchu digon o fwyd i bawb. Yn y gwasanaeth hwn, mae chwiorydd Swrinam yn ein hannog i garu'r greadigaeth, sydd yn rhodd ryfeddol gan Dduw, ac i ymrwymo i ofalu am ei fyd mewn modd cyfrifol, fel y cawn ninnau yn ein tro ei drosglwyddo'n ddilychwin i'n plant.

Mae'r diwrnod yn cychwyn wrth i'r haul godi dros Samoa, yn y Cefnfor Tawel, ac yn mynd yn ei flaen o gwmpas y byd, nes dod i ben tua 36 awr yn ddiweddarach, pan fydd yr haul yn machlud yn Samoa. Mae'r gwasanaeth wedi ei gyfieithu i dros 60 o ieithoedd a thros fil o dafodieithoedd, a bydd 170 o wledydd ac ynysoedd yn ei ddilyn. Yma yn Ynysoedd Prydain, cynhelir tua 6,000 o wasanaethau. Yn ystod y gwasanaeth ym Mangor bu rhai o ferched Emaus a Berea Newydd yn dangos sut y dylem edrych ar ôl ein byd mewn ffordd gyfrifol. Fe ddaeth y gwasanaeth i ben fel arfer trwy ganu'r emyn 'Y dydd a roddaist Iôr a giliodd' cyn adrodd y Fendith.

Gwlad ffrwythlon Swrinam

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
16 Medi	OEDFA CROESO'N ÔL	
23 Medi	158 Noa Dafydd	Salm 100 (beibl.net) Cai Dafydd
30 Medi (Diwrnod Waldo)	280 Bedwyr Llŷr	Eseia 11: 1–2; 6–9 Llio Eurgain
7 Hydref	145 Mati Roberts	Salm 36: 5–12 (beibl.net Eleri Roberts
14 Hydref	138 Hanna Gwyn Edwards	Salm 92: 1–6; 10–15 Owain Edwards
21 Hydref	OEDFA DDIOLCHGARWCH DEULUOL	
28 Hydref	HANNER TYMOR	

Diolch yn fawr am eich cyfraniad
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,
hysbyser Mari Lois –
dwjmlw@hotmail.com / 07980 287933. Diolch.

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu tuag at Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

Mawl ger y Pier

Cwpan CIC - Y pêl-droedwyr iau, timau Berea a Noddfa, Caernarfon